# JONES, SAMUEL MAURICE (1853 - 1932), arlunydd



**Enw:** Samuel Maurice Jones
**Dyddiad geni:** 1853
**Dyddiad marw:** 1932
**Rhiant:** John Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** arlunydd
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaernïaeth
**Awdur:** Edward Morgan Humphreys

Ganwyd ym Mochdre, sir Ddinbych, 1853, mab y Parch. John Jones (1820 - 1886), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Cafodd ei addysg yng Nghaernarfon, Lerpwl, a Llundain. Yn Llundain daeth i gyffyrddiad â Ruskin a Holman Hunt, a chafodd beth hyfforddiant ganddynt yn ei gelfyddyd. Ymroddodd yn gyfan gwbl i'r gwaith o arlunio, gan baentio darluniau o olygfeydd yng Nghymru yn bennaf, yn enwedig y wlad o gwmpas Caernarfon, lle bu'n byw y rhan fwyaf o'i oes, a dyffryn Conwy. Yr oedd ar ei orau yn darlunio golygfeydd mynyddig. Gwnaeth gryn lawer o waith i *Cymru (O.M.E.)* ac i gyfrolau 'Cyfres y Fil.'

Yn 1882 etholwyd ef yn ' Associate ' o'r Royal Cambrian Academy, ac yn aelod cyflawn yn 1921. Fel rheol byddai ganddo ddarluniau yn arddangosfa flynyddol yr academi yng Nghonwy. Ysgrifennodd rai erthyglau i *Cymru*.

Yn ei flynyddoedd olaf aeth i fyw i Landudno ac yno y bu farw 30 Rhagfyr 1932. Bu'n briod deirgwaith, ac yr oedd ganddo un mab.

## Awdur

**Edward Morgan Humphreys**, (1882 - 1955)

## Ffynonellau

*The Liverpool Daily Post*, 2 Ionawr 1933

gwybodaeth gan Mr. F. Lees, Ceidwad y Royal Cambrian Academy of Art

## Gweithiau

LlGC: Art notebook and sketches, 1874

LlGC: Sketches, ca.1890

LlGC: Tan y Castell, Dolwyddelan

ArtUK: Samuel Maurice Jones, 1853–1932

## Delweddau

Joseph Kinsley, Samuel Morris Jones

LlGC: Samuel Morris Jones

LlGC: Samuel Morris Jones

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734392

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu